Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 'Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid'

Chwefror 2017

Mae gwaith ieuenctid o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl ifanc, boed hynny drwy'r profiadau y mae'n eu cynnig neu'r cymorth y mae'n ei roi. Mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu pobl ifanc i wella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyd-fynd â'm syniadau cyfredol ac rwy'n falch o allu derbyn y rhan fwyaf ohonynt. Er y bydd angen ystyriaeth bellach cyn cyflwyno rhai o'r argymhellion, rwy'n cytuno'n gyffredinol â'u bwriad a'r camau y dylid eu cymryd nesaf.

Wrth dderbyn nifer o'r argymhellion, mae'n bleser gennyf gadarnhau bod gwaith eisoes wedi dechrau i weithredu rhai ohonynt. Bydd yr adroddiad hwn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd wrth fynd ati i'w lunio yn darparu gwybodaeth hollbwysig i'n helpu i adolygu'r strategaeth bresennol, penderfynu ar y camau nesaf a diweddaru Ymestyn Hawliau. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am dynnu sylw at rai o'r heriau mawr sy'n wynebu'r sector.

Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Argymhelliad 1
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ac adnewyddu'r canllawiau statudol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a phobl ifanc. Rhaid i gynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu, gan gynnwys amserlenni, gael ei ddatblygu ochr yn ochr â strategaeth newydd.

Ymateb: Derbyn

Rwyf eisoes wedi ymrwymo i adnewyddu Ymestyn Hawliau, sef y canllawiau statudol sy'n sail i'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru. Bydd angen adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid fel rhan o'r gwaith hwn. Caiff cynllun gweithredu manwl ei lunio a'i gyhoeddi erbyn diwedd Mawrth 2017.

Goblygiadau ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 2
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog gynnal trafodaethau brys â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid Gweinidogol i fynd i'r afael â'r pryderon o fewn y sector ynghylch diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Cefais gyfarfod â'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid ar 8 Rhagfyr 2016. Rwyf wedi gofyn i'r grŵp gydweithio â'm swyddogion i adnewyddu Ymestyn Hawliau. Byddant yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r grŵp a'r sector ehangach wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol.

Gwnaeth fy swyddogion ymgysylltu â'r grŵp cyfeirio wrth ystyried adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor, er mwyn sicrhau bod eu sylwadau'n cael eu cymryd i ystyriaeth.

Goblygiadau ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai fod llwybr clir ac ystyrlon i bobl ifanc fod yn bartneriaid cyfartal wrth ddatblygu gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru. Dylai hyn gael ei ddatblygu gan y Gweinidog, rhanddeiliaid a phobl ifanc.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc, a defnyddio arbenigedd rhanddeiliaid fel Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc, i ddatblygu gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n cwmpasu darpariaeth statudol a gwirfoddol. Dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn

Dylai unrhyw ystyriaeth o fodel cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid fod yn gysylltiedig â'r gwaith o adnewyddu Ymestyn Hawliau a'r adolygiad o'r

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Rwy'n hapus i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Goblygiadau ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Argymhellion 5, 6 a 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

5) Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar sut y mae'n bwriadu asesu i ba raddau y mae ei ymrwymiad i ddarpariaeth ddwyieithog mynediad agored, cyffredinol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael ei gyflawni.

6) O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog gomisiynu ymarfer i fapio darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol ledled Cymru. Dylid adnewyddu'r ymarfer o bryd i'w gilydd.

7) Dylai'r Gweinidog sicrhau bod asesiadau o ddigonolrwydd gwaith ieuenctid yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol fel rhan o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'n glir o'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor bod y sefyllfa o ran gwaith ieuenctid yng Nghymru yn newid. Mae'r awdurdodau lleol wedi gorfod addasu i hinsawdd ariannol heriol a newidiadau i anghenion pobl ifanc yn eu hardaloedd. Mae hyn wedi golygu eu bod yn aml wedi gorfod mabwysiadu dulliau gwahanol o weithio gyda phobl ifanc sydd y tu hwnt i'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid traddodiadol. I gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda chynrychiolwyr o'r sector i archwilio a fyddai asesiadau digonolrwydd yn gyfrwng addas i helpu awdurdodau lleol i asesu anghenion eu poblogaethau lleol. Gallai asesiadau digonolrwydd ddarparu dealltwriaeth well, ar lefel leol, o gymorth ieuenctid ar lawr gwlad. Hynny gan y byddai angen i unrhyw asesiad digonolrwydd a wneir gan yr awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i bobl ifanc (mynediad agored ac wedi'i thargedu) drwy'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae asesiadau digonolrwydd hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o dystiolaeth y gellir ei hystyried gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wrth iddynt baratoi eu hasesiadau o lesiant lleol. Rwy'n disgwyl i'r gwaith hwn fod yn sail i'r broses o adnewyddu Ymestyn Hawliau ac unrhyw fodel cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid. Rwy'n hapus i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Goblygiadau ariannol - Nid yw'r costau'n wybyddus eto.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer defnydd awdurdodau lleol o arian ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r grant cynnal refeniw. Dylai'r fframwaith gynnwys sancsiynau os na chyflawnir y canlyniadau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r grant cynnal refeniw yn ffrwd gyllido sydd heb ei neilltuo, ac felly mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Nid yw'n bosibl nodi faint o'r grant sy'n cael ei wario ar waith ieuenctid na rhagnodi'r swm hwn - mae'r Asesiadau o Wariant Safonol yn symiau tybiannol a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo yn unig ac nid ydynt yn dargedau ar gyfer gwariant. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth uniongyrchol i nifer o gynlluniau grant i gefnogi canlyniadau gwaith ieuenctid. Rydym wedi dechrau'r broses o adolygu'r ffrydiau cyllido hyn ar gyfer gwaith ieuenctid er mwyn nodi'r effaith y maent yn ei chael a gwella'r modd y cefnogir gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Rwyf eisiau sicrhau gwell tryloywder a gwerth am arian.

Goblygiadau ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 9
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog archwilio parhad cyllid posibl Erasmus+, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gwneud hynny.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi cyhoeddi Papur Gwyn, "Diogelu Dyfodol Cymru: Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop", sydd ar gael ar-lein yn: www.gov.wales/brexit.

Mae'r Papur Gwyn yn darparu cynllun cynhwysfawr a chredadwy ar gyfer y negodiadau gyda'n partneriaid yn Ewrop ar ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd - sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau Cymru, ond sydd wedi'i gynllunio i weithio ar gyfer y DU gyfan. Mae'n sicrhau cydbwysedd rhwng y neges a roddwyd i ni gan bobl Cymru y dylem adael yr Undeb Ewropeaidd, a'r realiti economaidd sy'n dangos pa mor bwysig yw bod yn rhan o'r farchnad sengl ar gyfer ffyniant Cymru, ac yn wir y Deyrnas Unedig, yn y dyfodol.

Mae'r penderfyniad y dylai'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd wedi'i wneud. Yr her rydym yn wynebu nawr yw sicrhau'r fargen orau bosibl i Gymru a'r DU.

Goblygiadau ariannol - Dim ar hyn o bryd. Bydd hyn yn dibynnu ar sefyllfa Llywodraeth y DU wrth i'r negodiadau ar delerau Brexit ddod yn gliriach.

Argymhelliad 10
Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y sector gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

Ymateb: Derbyn

Mae'r sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Diwygio Addysg. Cafodd y grŵp hwn ei sefydlu i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn enwedig y rheini nad ydynt yn cael eu cynrychioli mewn mannau eraill yn y strwythur llywodraethu neu ar weithgorau:

- yn cael eu hysbysu ynghylch hynt y gwaith o ddatblygu dull gweithredu *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* ac *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* a'u bod yn rhan o'r gwaith hwnnw;
- yn cael eu hysbysu ynghylch hynt y gwaith o ddatblygu dull gweithredu'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u bod yn rhan o'r gwaith hwnnw;
- yn ymwybodol o'r cysylltiad â Dysgu Proffesiynol ar gyfer y gweithlu.

Goblygiadau ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes ar gyfer rhaglenni.